



Dyddiad y Crëwyd: 30/11/2016
Dyddiad y
Cyhoeddwyd: 05/12/2016
Rhif y Fersiwn: 2.00

Man Gwasanaeth: Adran Tai
Man Gweithio: Tîm Asesu'r Gofrestr Tai Cyffredin
Manylion Cyswllt: Ffôn: 01443 873587
E-bost: dyraniadauachyngortai@caerffili.go.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd: Cofrestr Tai Cyffredinol
Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd: Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwch wrth wneud cais am dai cymdeithasol o dan y Gofrestr Tai Cyffredin.

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Ffynhonnell y data personol

Fel rhan o broses y Gofrestr Dai Cyffredin, yn ogystal â darparu gwybodaeth mewn perthynas â'u hamgylchiadau penodol, gall ymgeisydd ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag unigolion eraill sy'n berthnasol i'r cais.

Categoriâu o ddata personol

Gall y categorïau o ddata/gwybodaeth bersonol y gallant eu darparu mewn perthynas ag unigolion eraill gynnwys y categorïau canlynol o ddata personol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Enwau a dyddiadau geni
- Cyflyrau meddygol neu anabledau
- Anghenion gofal neu gefnogaeth
- Cefnogaeth arall gan sefydliad y trydydd sector
- Statws ariannol
- Euogfarn(au) troseddol
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Statws mewnfudo
- Hawl i fudd-daliad(au) y wladwriaeth
- Manylion cyflogaeth
- Hanes tenantiaeth
- Cam-drin domestig / dianc rhag trais neu aflonyddu / Amddiffyn plant

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Diben y gwaith prosesu

Defnyddir yr wybodaeth a gyflwynir mewn ffurflen gais y Gofrestr Tai Cyffredin er mwyn asesu cymhwysedd yr ymgeisydd i gael ei dderbyn ar y Gofrestr Tai Cyffredin, i bennu'r lefel o flaenoriaeth y gellir ei dyfarnu i'r cais a materion cysylltiedig eraill.

Mae'r Gofrestr Tai Cyffredin yn caniatáu i ymgeiswyr wneud cais am dai cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a landlordiaid tai cymdeithasol eraill yn y fwrdeistref gyda chais unigol.

Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Mae gofyniad tasg cyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth fel y manylir isod:

Er mwyn galluogi'r Cyngor, fel awdurdod tai lleol, i arfer ei awdurdod a freiniwyd ynddo gan Ran VI o Ddeddf Tai 1996 ac i'r Cyngor gyflawni ei dasgau, a wneir er budd y cyhoedd, i ddyrannu llety tai yn unol â Rhan VI o Ddeddf Tai 1996 a chynllun dyrannu'r Cyngor a wnaed yn unol â Rhan VI o Ddeddf Tai 1996.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig' a 'data am euogfarnau troseddol'. Os yw unrhyw wybodaeth yn dod o fewn diffiniad y dosbarthiadau hyn, wedyn bydd yn rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 / Erthygl 10 o'r Rheoliadau, fel y nodir isod:

Deddf Diogelu Data 2018, Atodlen 2, Adran 6 (Amod Erthygl 9 ac Erthygl 10)

- (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r brosesu-
 - (a) Yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a
 - (b) Yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd sylweddol y cyhoedd.
- (2) Y dibenion hynny yw -
 - (a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
 - (b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.

Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data Eraill fel darparwyr tai cymdeithasol eraill sy'n gweithredu o fewn y fwrdeistref hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau

penodol. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth a nodir ar frig y ddogfen hon am ragor o wybodaeth.

Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fydd Tîm Asesu'r Gofrestr Tai Cyffredin, y mae ei fanylion cyswllt ar frig y ddogfen hon.

Yn seiliedig ar ddewisiadau'r ymgeisydd wrth gwblhau ffuflen cais y Gofrestr Tai Cyffredin, bydd gwybodaeth a gyflwynir hefyd yn cael ei phrosesu gan ddarparwyr tai cymdeithasol eraill sy'n gweithredu yn y fwrdeistref.

Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Er mwyn asesu'r cais ac i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a ddarparwyd, gall Tîm Asesu'r Gofrestr Tai Cyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a/neu ddarparwyr tai cymdeithasol eraill ofyn am wybodaeth oddi wrth a throsglwyddo gwybodaeth i gyrff eraill, megis adrannau eraill o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gall hyn gynnwys rhannu gwybodaeth gyda'r tîm Budd-daliadau Tai er mwyn gwirio manylion y plant a enwir ar y cais.

Gellir rhannu unrhyw wybodaeth ar ffurflen gais y Gofrestr Tai Cyffredin sy'n ymwneud â landlordiaid y sector preifat, asiantau rheoli neu eiddo rhent preifat gyda gwasanaeth Tai'r Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, at y dibenion canlynol:

- I ymchwilio a gweithredu, os oes angen, yn erbyn landlordiaid ac asiantau nad ydynt wedi'u cofrestru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Efallai y bydd gwasanaeth Tai'r Sector Preifat yn rhannu'r wybodaeth hon gyda Rhentu Doeth Cymru.
- I ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau yn erbyn landlordiaid eiddo sydd mewn cyflwr gwael o dan ddeddfwriaeth amrywiol.
- I ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau yn erbyn landlordiaid tai amlfeddiannaeth sydd heb drwydded ac/neu nad ydynt yn bodloni'r safonau tai amlfeddiannaeth sydd eu hangen o dan ddeddfwriaeth amrywiol.

Efallai y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir ar ffurflen gais y Gofrestr Tai Cyffredin gyda'i dîm digartrefedd neu dîm digartrefedd awdurdod lleol arall i atal neu leddfu digartrefedd.

Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Er mwyn asesu'r cais ac i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a gyflwynir, gall tîm Dyraniadau a Chyngor Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a/neu ddarparwyr tai cymdeithasol eraill ofyn am wybodaeth oddi wrth a throsglwyddo gwybodaeth i gyrff eraill, er enghraifft, ond nid wedi'i gyfyngu i: cymdeithasau tai; yr heddlu a gwasanaethau brys eraill; y gwasanaethau prawf a charchardai; gweithwyr iechyd proffesiynol a meddygon teulu lleol; asiantaethau nawdd Cymdeithasol; yr Asiantaeth Budd-daliadau; yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau; cyn-landlord(iaid); cyfreithiwr/cyfreithwyr yr ymgeisydd; darparwr morgais yr ymgeisydd; darparwyr cyfleustodau; y Gofrestrfa Tir; Llywodraeth Cymru; asiantaethau cefnogi a chontractwyr y sector gwirfoddol. Y tu allan i Gymru a Lloegr, gellir cysylltu â'r asiantaeth gyfatebol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu arian cyhoeddus. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd i atal a chanfod twyll a gall hefyd ofyn am wybodaeth oddi wrth a throsglwyddo gwybodaeth i sefydliadau eraill sy'n trin arian cyhoeddus.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hól, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Yn gyffredinol, cedwir y wybodaeth sydd gennym ar ffurflen gais y Gofrestr Tai Cyffredin, gan gynnwys unrhyw ddogfennau cysylltiedig, am 7 mlynedd. Fodd bynnag, cedwir y wybodaeth yn hirach os yw'ch cais am dai yn dal i fod yn weithredol neu os bydd achos cymorth yr ymgeisydd yn aros ar agor.

Gwneud penderfyniadau / proffilio awtomataidd

Bydd gwybodaeth a gyflwynir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei defnyddio er mwyn asesu cymhwysedd ymgeisydd i gael ei dderbyn ar y Gofrestr Tai Cyffredin, i bennu'r lefel o flaenoriaeth y gellir ei rhoi i'r cais a materion cysylltiedig eraill. Mae'r broses hon yn cynnwys elfennau o wneud penderfyniadau'n awtomatig.

Mae hyn yn golygu y bydd meddalwedd y Gofrestr Tai Cyffredin yn dyrannu categori anghenion tai, yn dibynnu ar atebion yr ymgeisydd i'r cwestiynau/gwybodaeth a ddarparwyd. Bydd Swyddog Asesu hyfforddedig yn adolygu'r holl wybodaeth a gyflwynwyd / canlyniad i sicrhau bod y categorïau a ddyfernir yn briodol.

Fel rheol, bydd yr ymgeiswyr hynny a asesir sydd â'r angen mwyaf yn cael y blaenoriaeth uchaf mewn perthynas â thai cymdeithasol addas a fydd ar gael.

Mae rhagor o wybodaeth am y Polisi Dyrannu Cyffredin ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gael ar ein gwefan:

<https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Housing/Common-Allocation-Policy?lang=cy-gb>

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: [Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun \(SAR\)](#)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn trin eich data, mae gennych hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

<https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb>

Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd y wybodaeth a gyflwynir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei phrosesu gan Dîm Asesu'r Gofrestr Tai Cyffredin a darparwyr tai cymdeithasol eraill sy'n gweithredu yn y fwrdeistref. Defnyddir y wybodaeth a gyflwynir er mwyn asesu cymhwysedd yr ymgeisydd i gael ei dderbyn ar y Gofrestr Tai Cyffredin, i bennu'r lefel o flaenoriaeth y gellir ei rhoi i'r cais a materion cysylltiedig eraill. Mae'r broses hon yn cynnwys elfen o wneud penderfyniadau'n awtomatig.

Er mwyn asesu'r cais ac i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a ddarparwyd, gall Tîm Asesu'r Gofrestr Tai Cyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a/neu ddarparwyr tai cymdeithasol eraill ofyn am wybodaeth oddi wrth a throsglwyddo gwybodaeth i gyrff eraill. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i atal a chanfod twyll ac fe allem hefyd ofyn am wybodaeth oddi wrth a throsglwyddo gwybodaeth i sefydliadau eraill sy'n trin arian cyhoeddus.

Gellir rhannu unrhyw wybodaeth ar eich ffurflen gais y Gofrestr Tai Cyffredin sy'n ymwneud â landlordiaid, asiantau rheoli neu eiddo rhent yn y sector preifat â gwasanaeth Tai'r Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Efallai y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir ar ffurflen gais y Gofrestr Tai Cyffredin gyda'i dîm digartrefedd neu dîm digartrefedd awdurdod lleol arall i atal neu leddfu digartrefedd.

Yn gyffredinol, cedwir y wybodaeth sydd gennym ynglŷn â'ch ffurflen gais y Gofrestr Tai Cyffredin, gan gynnwys unrhyw ddogfennau cysylltiedig, am 7 mlynedd ond fe all hyn fod yn hirach mewn rhai amgylchiadau.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, dilynwch y ddolen hon:

[{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}](#)